

Ysgol Bro Gwydir  
Heol Watling  
Llanrwst  
Conwy  
LL26 0EY  
01492 640342

# Cylchlythyr Y Cyfnod Sylfaen - Dan 7

## Tachwedd 2020 - Tymor yr Hydref

### Mathemateg a Rhifedd

- Yn y gwersi mathemateg, byddwn yn edrych ar rifau trefnol, ac yn cyd-fynd a hyn yn ein thema gan drefnu'r planedau.
- Byddwn yn cyfri ymlaen o rifau gwahanol fesul 2, 5 a 10.
- Byddwn yn enwi a defnyddio siapiau 2D i greu estroniaid eu hunain.
- Byddwn yn dysgu a defnyddio bondiau 10, 20 a 100.
- Byddwn yn adio a thynnu rhifau 1 digid i rhifau 2 ddigid drwy ddefnyddio y dull cyfrif ymlaen ac yn ol.
- Byddwn yn deall beth yw gwerth pob digid (cannoedd, degau ac unedau) mewn rhifau hyd at 1000.

### Dyniaethau

- Caiff y plant ddysgu am hanes gofodwyr enwog e.e Neil Armstrong a Tim Peake.
- Bydd y plant yn clywed stori 'Guto Ffowc' ac yn creu darnau celf i gyd-fynd.
- Byddwn yn gwneud gwaith ar Sul y Cofio ac yn gwneud gwaith celf i gofio.
- Byddwn yn cael bythefnos o astudio Addysg Grefyddol ar ddiwedd y tymor. Bydd y plant yn cael cyfle i ail-drodd stori'r geni ymysg llawer o weithgareddau eraill.

### Iechyd a Lles

- Bydd y plant yn cael sesiynau amser cylch wythnosol i ymarfer sgiliau gwranddo a dysgu a thrafod teimladau.
- Yn y gwersi Addysg Gorfforol, bydd y plant yn gwneud Gymnasteg.
- Bydd y plant yn dysgu tu fewn a thu allan ymhob tywydd.
- Bydd Blwyddyn 1 yn cael cymryd rhan mewn sesiynau Kerbcraft er mwyn dysgu rheolau i gadw'n ddiogel ar y ffordd.
- Bydd y plant yn defnyddio 'Yoga Cosmic Kids' a 'Go Noodle' i gadw'n heini.

### Gwybodaeth i Rien Blwyddyn 1 a 2 -

#### Y Gofod



#### PRYDLONDEB

Mae angen i'ch plentyn gyrraedd y dosbarth erbyn **9.00 y bore.**

Yn anffodus os yw eich plentyn yn cyrraedd ar ôl 9.10 bydd ef neu hi yn cael ei farcio fel hwyr ar y gofrestr.

Ni ddylai eich plentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.50yb oni bai eu bod yn mynychu'r 'Clwb Brecwast'.  
Diolch yn fawr.

### Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn creu estron ein hunain gan feddwl am enwau sy'n cyflythrengu ac yna'n defnyddio ansoddeiriau i ysgrifennu portread o'u estron dychmygol.
- Byddwn yn meddwl am gwestiynau i ofyn wrth yr estron gan ymarfer patrymau iaith 'pwyl', 'ble', 'sut', 'pam' ac yna'n dysgu sut i ysgrifennu cwestiynau gan ddefnyddio marc cwestiwn.
- Byddwn yn ysgrifennu llythyr i'r estron yn cyflwyno ein hunain gan egluro eu bod wedi glanio ar y Ddaear.
- Yn yr ardal chwarae rol, bydd y plant yn cael cyfle i chwarae rol eu bod mewn llong ofod. Yn yr ardal Byd Bach, bydd y plant yn chwarae rol eu bod wedi glanio ar y lleuad.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Caiff y plant gyfle i ddarllen a dilyn cyfarwyddiadau i adeiladu roced mawr eu hunain gan ddefnyddio offer ail-gylchu.
- Byddwn yn ail-greu cysawd yr haul drwy wneud model 3D.
- Byddwn yn darganfod ffynonellau goleuni, gan gynnwys yr haul ac arbofi a ymchwilio i gysgodion.
- Byddwn yn ymchwilio i'r planedau yng Nghysawd yr haul - enwi, trefnu a chasglu gwybodaeth a ffeithiau amdanant.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Byddwn yn dysgu amrywiaeth o ganeuon Nadolig yn ystod y tymor a bydd y disgyblion yn cael cyfle i greu sioe byr.
- Ymchwilio i lliw, patrwm, gwead, siap, ffurf a llinell gwahanol a'u defnyddio pan yn creu estron eu hunain.
- Creu model 3D o gysawd yr haul allan o papier mache.
- Creu crefftiau Nadoligaidd.

## Cofiwch...

### ADDYSG GORFFOROL

Mae angen i'r plant gael crys t gwyn, siorts du a phympiau mewn bag. Byddent yn gadael y dillad yn yr ysgol am y hanner tymor.



<b>Saffrwn</b>	Dydd Mawrth
<b>Grug</b>	Dydd Mercher
<b>Meillion</b>	Dydd Iau

### DARLLEN

Mae angen i'r plant ddod a llyfrau darllen i'r ysgol **bob dydd.** Byddwn yn darllen gyda'r plant gymaint ac y gallwn yn ystod yr wythnos ond yn anffodus oherwydd amgylchiadau Covid-19, byddwn yn newid llyfrau unwaith yr wythnos yn unig.  
Diolch.



### TYWYDD

**Mae eich plentyn angen côt addas ar gyfer tywydd gwlyb.**

Mae croeso i'r plant ddod a diod o ddŵr gydag enw ar y botel.

